# FFURFLEN MANYLION / INFORMATION SHEET

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen:** | Polisi Ansawdd |
| **Y math o ddogfen:** | Polisi |
| **Perchennog y ddogfen:** | Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd |
| **Uwch Gyfarwyddwr â chyfrifoldeb:** | Uwch Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd |
| **Pwrpas:** | Pwrpas Polisi Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai yw rhoi gwybod i staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill am egwyddorion arweiniol strategaethau a systemau ansawdd y Grŵp (a adwaenir ar y cyd fel y “Fframwaith Ansawdd”). |
| **Cylch Adolygu:** | **Bob dwy flynedd** |

| **Sut mae'n cysylltu â'r Cynllun Strategol (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | |
|---|---|
| Bod ar flaen y gad yn y byd modern / Ein lle yn y gymuned / Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr / Defnyddio sgiliau a gwybodaeth i ysgogi'r economi / Ein rôl mewn Cymru gynaliadwy | |
| **Sut mae'n cysylltu â'r Gofrestr Risg (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | |
| STR0001 Diffyg llywodraethu effeithiol.<br>STR0004 Diffyg capasiti/gallu yn yr holl feysydd arbenigol allweddol.<br>STR0005 Ni chedwir cyfrinachedd a chydymffurfiaeth data.<br>STR0008 Pryderon ynghylch ansawdd y profiadau dysgu.<br>STR0009 Diffyg perthynas gadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned.<br>STR0014 Bod perfformiad a gweithgareddau Hyfforddiant Gogledd Cymru yn cael effaith negyddol yn ariannol ac ar enw da'r Grŵp.<br>STR0017 Diffyg amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio'n negyddol ar ganfyddiad dysgwyr, gweithwyr a rhanddeiliaid o GLlM. | |
| **Sut mae'n cysylltu â'n gwerthoedd (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | Cydraddoldeb / Ymddiriedaeth / Tegwch / Parch / Gonestrwydd / Uchelgais |

| **Rhestr Wirio'r Broses Gymeradwyo - dileer os nad yw'n berthnasol :** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| • Asesiadau Effaith Cychwynnol | **10/04/25** |
| • Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â staff (RL) | **11/04/25** |
| • Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (RL) | **11/04/25** |
| • Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau (os ydynt yn berthnasol) | **Amherthnasol** |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol | **19/05/25** |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) | **21/05/25** |

| | |
|---|---|
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) | **Amherthnasol** |
| • Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol / SHE | **21/05/25** |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau* | **03/06/25** |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd | **26/06/25** |
| • Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp | **02/09/25** |

# Polisi Ansawdd

## Pwrpas y Polisi

Pwrpas Polisi Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai yw rhoi gwybod i staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill am egwyddorion arweiniol strategaethau a systemau ansawdd y Grŵp (a adwaenir ar y cyd fel y "Fframwaith Ansawdd").

## Datganiad Polisi

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i wella'n barhaus ac i geisio rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ei weithgaredd. Mae'r Polisi hwn yn cyfrannu at Genhadaeth y Grŵp drwy gyhoeddi ymroddiad y Grŵp i welliant parhaus ar bob lefel a thrwy amlinellu'r prif brosesau ac egwyddorion a fydd yn arwain ac yn cefnogi gweithrediad Fframwaith Ansawdd y Grŵp.

## Dull Gweithredu

I gefnogi cyflawni rhagoriaeth, o fewn Grŵp Llandrillo Menai rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

### Egwyddorion Trosfwaol

- Cynhwysiant, drwy ddarparu cyfleoedd i staff, a'u grymuso i gymryd rhan ym mhrosesau hunanasesu'r Grŵp ar bob lefel briodol
- Integreiddio dwyieithrwydd ym mhob proses ansawdd er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ac ethos dwyieithog o fewn y Grŵp ymhellach
- Darparu fframwaith atebolrwydd sy'n nodi'r rolau, cyfrifoldebau a threfniadau adrodd yn glir mewn perthynas ag ansawdd darpariaeth y Grŵp
- Datblygu cydnabyddiaeth bod yr holl staff yn cyfrannu at ddiwylliant ansawdd y Grŵp a darparu sianeli i staff gyfrannu eu barn a'u syniadau

- Meithrin diwylliant deinamig ac arloesol o welliant parhaus drwy gefnogi datblygu syniadau a mentrau newydd
- Darparu profiadau dysgu cyson o ansawdd uchel sy'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hymestyn a'u herio i gyflawni eu gradd darged a'u cymwysterau

### Hunanasesu

- Sicrhau bod hunanasesu yn broses onest, agored a realistig, sy'n effeithiol wrth nodi meysydd rhagoriaeth ac anghenion datblygu

- Sicrhau bod yr holl brosesau hunanasesu yn cael eu safoni'n drylwyr a bod adborth adeiladol yn cael ei roi i'r rhai sy'n cyfrannu at y broses

- Sicrhau bod hunanasesu yn arwain at ddatblygu cynlluniau gwella ansawdd CAMPUS sydd â

chanlyniadau clir, perchnogaeth o gamau gweithredu a therfynau amser heriol

Cynllunio a Monitro Gweithredu

- Nodi a datblygu dangosyddion perfformiad cynhwysfawr, sy'n gysylltiedig â chymaryddion a meincnodau perthnasol, ac sy'n ceisio sicrhau bod gwelliannau mesuradwy yn cael eu gwireddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda'r nod o ddod y gorau posibl
- Hwyluso mynediad at ddata perfformiad amserol drwy fanteisio ar y technolegau diweddaraf cyflym a hawdd i'w defnyddio
- Monitro a mesur cynnydd tuag at welliant yn erbyn camau gweithredu a nodwyd drwy hunanasesu a thargedau dangosyddion perfformiad a datblygu strategaethau priodol i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni a thargedau'n cael eu cyrraedd

### Gwella Ansawdd

- Darparu mecanweithiau priodol ar gyfer cefnogi meysydd sy'n tanberfformio er mwyn codi safonau e.e drwy hyfforddi a mentora
- Manteisio ar gyfleoedd i rannu arfer gorau ledled y Grŵp
- Sicrhau bod Llais y Dysgwr yn chwarae rhan allweddol o fewn y fframwaith ansawdd drwy gasglu safbwyntiau dysgwyr mewn modd systematig ac ymateb iddynt
- Annog adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid y Grŵp, gan sicrhau bod gweithdrefnau cwyno ac apelio effeithiol yn cael eu hysbysebu a’u defnyddio’n dda
- Datblygu gweithdrefnau a dogfennaeth o ansawdd clir a hygyrch sy'n addas i'r diben heb fod yn or-fiwrocrataidd
- Cyfathrebu'n rheolaidd ac mewn modd agored â staff a chwsmeriaid ar safonau perfformiad y Grŵp
- Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a’r priodoleddau priodol i berfformio i’r safonau uchaf
- Adolygu’r Fframwaith Ansawdd yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau’n berthnasol ac effeithiol

## Monitro a Mesur Effaith

Bydd effeithlonrwydd y polisi hwn yn cael ei fonitro'n gyson gan Dîm Polisi'r Grŵp a Phwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau Grŵp Llandrillo Menai, a thrwy ymgynghori ag undebau llafur a staff. Y meini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd fydd llwyddiant wrth gwrdd â thargedau a dangosyddion perfformiad y Grŵp fel y'u mesurir flwyddyn ar ôl blwyddyn yn erbyn meincnodau'r sector.

Bydd llwyddiant wrth fodloni'r meini prawf hyn hefyd yn llywio'r adolygiad o'r Fframwaith Ansawdd bob dwy flynedd a bydd y Polisi Ansawdd hwn yn cael ei ddatblygu / ei ddiwygio yn unol â hynny.

### Cyhoeddi'r Polisi

Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp a bydd ar gael i'r holl aelodau staff ar fewnrwyd y Grŵp.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 08/04/2025 |
|---|---|---|---|
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses? | Dim o gwbl. Mae'r polisi'n datgan fod Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i wella'n barhaus ac i geisio rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ei weithgaredd.<br>Mae'r polisi'n hyrwyddo cynhwysiant i bawb drwy<br>• roi cyfleoedd i staff fod yn rhan o brosesau hunanasesu'r Grŵp ar bob lefel briodol, a'u grymuso i wneud hynny<br>• integreiddio dwyieithrwydd ym mhob proses ansawdd er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ac ethos dwyieithog y Grŵp ymhellach<br>• darparu profiadau dysgu cyson o ansawdd uchel sy'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hymestyn a'u herio i gyflawni eu gradd darged a'u cymwysterau | |
| Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses? | Bydd pob grŵp a warchodir yn cael budd o'r polisi hwn gan mai'r nod yw sicrhau gwella parhaus yn yr addysg, y dysgu a'r asesu.<br><br>Defnyddir data i nodi dangosyddion perfformiad a bydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei nodi a'i ddatblygu i sicrhau llwyddiant dysgwyr.<br><br>Gall dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME), dysgwyr nad yw Saesneg na Chymraeg yn iaith gyntaf iddynt neu ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gael budd o weithredu'r polisi hwn. Gall setiau data a phrosesau ansawdd amlygu anghenion cymorth ychwanegol i ddysgwyr a allai fod yn draddodiadol yn tanberfformio o'i gymharu â'u cyfoedion. | |

| | | |
|---|---|---|
| A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da? | Ydi. Mae'r polisi'n ceisio sicrhau proses ansawdd gadarn a fydd yn gwella'r profiad dysgu i bawb ac a fydd yn grymuso ac yn cynnwys staff mewn gwella ansawdd.<br><br>Bydd effeithiolrwydd gweithredu'r Fframwaith Ansawdd yn destun monitro parhaus gan Grŵp Tim Polisi a Phwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau Corfforaeth Grŵp Llandrillo Menai. | |
| A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon? | Na. Os caiff ei weithredu fel y disgrifiwyd, bydd y prosesau ansawdd cadarn a amlinellwyd yn gwella'r addysgu, y dysgu a'r asesu i bawb. | |
| A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn? | Nac oes. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 08/04/2025 |

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 08/04/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Mae'r polisi hwn yn amlinellu dwyieithrwydd fel un o egwyddorion craidd ansawdd. Integreiddio dwyieithrwydd ym mhob proses ansawdd er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ac ethos dwyieithog y Grŵp ymhellach.<br>Bydd hyn yn gwella'r cwricwlwm dwyieithog a chyfrwng Cymraeg a gynigir ac yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y Grŵp. | |
| Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Dim o gwbl. Mae'r polisi'n datgan y bydd dwyieithrwydd ac ethos dwyieithog yn cael eu hintegreiddio i bob proses ansawdd. Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog ar Borth y Grŵp. | Monitro, cefnogaeth ac arweiniad parhaus i staff i sicrhau bod dwyieithrwydd wedi'i integreiddio a'i wreiddio ym mhrosesau ansawdd cadarn y Grŵp. |
| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? | Oes. Mae digon o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn Nhîm Ansawdd y Grŵp i gefnogi gweithredu'r polisi | |

| | | |
|---|---|---|
| | hwn. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gall tîm cyfieithu mewnol y Grŵp ddarparu cefnogaeth (dogfennaeth ysgrifenedig neu wasanaethau cyfieithu ar y pryd). | |
| Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd? | Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gellir darparu cyfeithu ar y pryd trwy gyfrwng Trosi, ein tîm cyfieithu mewnol. | |
| A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai? | Ydi. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 08/04/2025 |

## Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Lisa Fowlie | **Dyddiad:** | 10/04/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp? | Ni ddylai fod unrhyw effaith uniongyrchol ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp gan ei bod yn nodi bod Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i wella parhaus a mynd ar drywydd rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ei weithgaredd.<br>Mae'n cefnogi y byddai safbwyntiau eithafol (a allai fod yn erbyn y targedau amgylcheddol) yn cael eu rheoli. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Lisa Fowlie | **Dyddiad:** | 10.04.2025 |